


# Datganiad Cwricwlwm
## **Ysgol Gymraeg Tyle’r Ynn**

Yma yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tyle’r Ynn, ymfalchiwn yn ein gweledigaeth o gynnig cyfleoedd gwerthfawr a phrofiadau pwrpasol i’n disgyblion, fel sail i’w dysgu. Rydym yn annog ein plant i geisio ar gyfleoedd, i fod yn uchelgeisiol, yn fentrus ac yn barod i ddysgu a chyfrannu fel dinasyddion yr 21ain ganrif.

Profiadau sbardunol sydd yn arwain addysgeg ein meysydd dysgu a phrofiad, sy’n cydblethu sgiliau allweddol o fewn cyd-destun bywyd go iawn. Mae cwricwlwm Ysgol Gymraeg Tyle’r Ynn yn un drawsgwricwlaidd, sydd wedi ei chynllunio i fod yn eang a chytbwys drwy sicrhau statws uchel i bob Maes Dysgu, ac sy’n cwmpasu cysyniadau a nodir yn y datganaidau ‘yr hyn sy’n bwysig’.

Mae’r cwricwlwm yn tyfu’n briodol gyda’r disgybl drwy daith ei addysg cynradd, ac yn cynnig cyfleoedd niferus dyddiol i wireddu nodweddion y pedwar diben, i gyfathrebu’n effeithiol, i ddatrys problemau, defnyddio technolegau digidol a gwneud cynnydd effeithiol. Y disgybl sydd wrth wraidd ein cwricwlwm ac mae llais y plentyn yn chwarae rôl annatod ynddi. Mae pob dysgwr yn cymryd rhan mewn trafodaethau ar ddechrau a diwedd themau dysgu, wrth drafod ac adlewyrch ar eu profiadau, Mae pob disgybl yn dathlu eu hunaniaeth, ac â mynediad i brofiadau cyfoethog, hwylus ac ysbrydoledig gyda chyfleoedd i fethrin a dathlu arloeseg, creadigrwydd ac i feddwl yn feirniadol.

Rydym yn ysgol sydd yn ymfalchio yn ein gwerthoedd, maent yn ganolbwynt ein addysgu. Rydym yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau asesu ar sail tystiolaeth i alluogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol. Mi fydd ein cwricwlwm yn cael ei adolygu yn barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion ein dysgwyr, yn gyfoes ac yn sefyll law yn llaw â gwerthoedd ein gweledigaeth.






# Curriculum Statement
# Ysgol Gymraeg Tyle’r Ynn

Here at Ysgol Gynradd Gymraeg Tyle'r Ynn we pride ourselves on our vision of providing valuable opportunities and bespoke experiences for all our pupils, as the foundation for their learning. We encourage our children to be ethical and informed citizens, be ambitious and capable learners, healthy and confident individuals and enterprising and creative contributors as 21st century citizens.

Purposeful experiences are the foundation of the pedagogy of our areas of learning and experience, intertwining key skills within a real-life context. Ysgol Gymraeg Tyle'r Ynn's curriculum is cross-curricular, designed to be broad and balanced by ensuring a high status for all Areas of Learning, and encompassing concepts set out in the ‘What matters' statements.

Our curriculum will appropriately evolve with the pupils throughout their primary education journey and offers numerous daily opportunities to develop the features of the four purposes, to communicate effectively, to solve problems, to use digital technologies and to make effective progress.

The pupil is at the heart of our curriculum and pupil voice plays an integral role in it. All learners engage in discussions at the beginning and end of learning concepts, in discussing and appreciating experiences. All pupils celebrate their identity, and have access to rich, fun and inspiring experiences with opportunities to celebrate innovation, creativity and critical thinking.

As a school we pride ourselves on our values, which are the focus of the methodology of our teaching. We use a range of evidence-based assessment strategies to enable each individual learner to progress at an appropriate pace. Our curriculum will be continually reviewed to ensure it meets the needs of our learners, is relevant and purposeful and stands hand in hand with the values of our vision.

